# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Addysg (Cofnodion Disgyblion) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ynghylch cadw a datgelu cofnodion disgyblion ysgol, gan gynnwys cofnodion am gyraeddiadau academaidd.

Maent yn disodli rheoliadau a wnaed ym 1989.

Ceir darpariaethau sy'n cael effaith debyg, ar gyfer Lloegr, yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Lloegr) 2000 (OS Rhif 297).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan fod y cynghorwyr cyfreithiol wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau hyn maent wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi cael eu cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Gan hynny, nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rheoliad 3(1)**

Sylwer y bydd "cofnod addysgol" yn cynnwys gwybodaeth sy'n ffurfio rhan o "gofnod cwricwlaidd" ac yn unol â hynny y bydd "athro" ym mharagraff (a) yn cynnwys pennaeth.

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

13 Chwefror 2001